**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR LLYWIO CYNLLUN LLE CYNGOR TREF BAE COLWYN, A GYNHALIWYD YN NEUADD Y DREF AC O BELL (DRWY ZOOM) AM 11YB AR DDYDD GWENER 6ᴱᴰ MEHEFIN 2025**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Hannah Fleet, Jason Higgins, Chris Hughes
Y Cynghorydd Sir Cheryl Carlisle,
Cynrychiolwyr Cyfetholedig Cymunedol/Busnes: Brian Cossey (Cadeirydd), David Masding, David Sewell, Tracey Toulmin

**SWYDDOGION:** Tina Earley, Clerc y Dref
Rachael Gill, Rheolwr y Cynllun Lle
Pam Everley, Clerc Cynorthwyol
Shane Wetton, Swyddog Cynllun Lle, CBS Conwy
Natalie Hughes, Creu Conwy (CBSC) a Thîm Tref Bae Colwyn

**YN ABSENNOL:** Y Cynghorwyr: P. Ashe, C. Bell, J. Pearson

**24/25 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rob Dix a'r Cynghorydd Ricki Owen.

**25/25 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd:**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd presennol, David Masding, ei fod yn dymuno sefyll i lawr, ar ôl gwasanaethu'r Grŵp Llywio/Pwyllgor ers ei sefydlu yn 2019. Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer rôl y Cadeirydd ar gyfer 2025/26. Enwebwyd Brian Cossey, yr Is-gadeirydd presennol, ac fe'i etholwyd yn unfrydol i fod yn Gadeirydd.

Cymerodd Brian y Gadair a gofynnodd am enwebiadau ar gyfer yr Is-gadeirydd.

Enwebwyd y Cynghorydd Hannah Fleet ac fe'i hetholwyd yn unfrydol yn Is-gadeirydd.

Mynegodd yr aelodau eu diolchgarwch i David Masding am ei wasanaeth fel Cadeirydd ac am arwain y grŵp trwy ddatblygiad cychwynnol y Cynllun Lle.

**26/25 Datgan Cysylltiadau:**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

**27/25 Cofnodion y cyfarfod diwethaf:**

**a)** ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi, fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 7fed Chwefror 2025.***

**b)** ***Penderfynwyd derbyn nodiadau cyfarfodydd pob un o'r chwe gweithgor.***

**28/25 Materion yn Codi o'r cyfarfod blaenorol:**

a) Cofnod 393/24 (a) - Cais am gyllid Gwynt y Môr a Gwastadeddau'r Rhyl.
Nododd yr aelodau fod y cais am gyllid wedi'i amnewid o gynnig tair blynedd i gynnig dwy flynedd, ar gyngor gan weinyddwr y gronfa, yn dilyn newid yn y meini prawf cyllido.

b) Cofnod 393/24 (g) - Prosiect Paneli Dehongli

Cytunodd yr aelodau fod prosiect i adnewyddu paneli dehongli ar draws ardal Bae Colwyn yn brosiect y dylid ei flaenoriaethu ac fe ddylid ei baratoi'n ddigonol i wneud cais am unrhyw gyllid grant perthnasol a allai ddod ar gael yn y dyfodol.

***Penderfynwyd y byddai R. Gill ac N. Hughes yn adolygu'r adroddiad a gynhyrchwyd o dan y Prosiect Dychmygu (2019) i nodi paneli allweddol i'w amnewid ar frys, a nodi'r rhai a allai fod yn gymwys i gael cefnogaeth trwy gyllid amgylcheddol Mannau Lleol dros Natur.***

***c)*** Nodiadau o gyfarfod Teithio O Gwmpas 8.5.25 - Ailddatblygu Canolfan Bay View

Nodwyd y bydd R. Gill yn cyfarfod â Dylan Jones (CBSC), Simon England, a Paddy Brennan (Rheolwr Gyfarwyddwr - Asiantaeth a Buddsoddiad (Bay View) i drafod y cynlluniau ailddatblygu ac i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan fusnesau lleol. Er bod busnesau'n cydnabod pwysigrwydd yr ailddatblygiad a'r rôl allweddol y mae Morrisons yn ei chwarae yn y gymuned, mae pryder sylweddol ynghylch yr effaith negyddol bosibl o gau Ffordd Sea View yn ystod y dymchwel.

***Penderfynwyd y bydd R. Gill yn codi awgrym y Cynghorydd C. Hughes i gynnig awr o barcio am ddim ym maes parcio Stryd Ivy yn ystod y cyfnod hwn, yn y cyfarfod ar 19eg Mehefin.***

**29/25 Adborth gan y Fforwm Ardal Leol**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad llafar o gyfarfod diweddaraf y Fforwm Ardal Leol gan y Cynghorydd C. Carlisle ac R. Gill. Roedd eitemau allweddol wedi cynnwys: (RG) dwy draphont yn Hen Golwyn - angen buddsoddiad sylweddol; Adran106, diweddariad y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLlD); datblygiad Ffordd Coed Coch; (CC) Cynllun gwaith ymlaen llaw - teithio llesol a'i effaith - nid yw aelodau lleol weld cynigion eto (dydd Llun); CDLlD- cyfarfod arbennig i'w gynnal am yr effaith ar ardal Bae Colwyn; cyllid ar gyfer cyfleusterau toiledau cyhoeddus newydd ym Mhorth Eirias; cwteri, draenio a systemau draenio cynaliadwy; effaith methdaliad Brenig.

**30/25 <u>Adroddiad Cynnydd:</u>**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad diweddaru llafar gan Reolwr y Cynllun Lle ynghylch amcanion y 12 mis cyntaf. Nodwyd y bu'n cyfnod prysur iawn, ond cadarnhaol ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r uchafbwyntiau wedi cynnwys:

a) Sicrhau cyllid i'r swydd barhau y tu hwnt i Fedi 2025 - gweler y diweddariad cynharach.

b) Parhau i gefnogi'r chwe gweithgor thematig a Phwyllgor Ymgynghorol y Cynllun Lle

Mae RD wedi rhoi rhywfaint o adborth - yn bryderus am y nifer isel a ddaeth i rai o'r grwpiau, ond mae'n debyg y bydd y presenoldeb yn amrywio - yn awgrymu adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn (ar ôl Ch4). Newydd ddechrau cyfarfodydd Ch3. Her i gadw i fyny â'r holl gamau gweithredu! Mae cylchlythyr efo diweddariadau yn parhau a chysylltiadau newydd yn dod ymlaen.

c) Gweithredu/cadw'n gyfredol cynlluniau gweithredu thematig y Cynllun Lle (i ddilyn) - i'w hanfon allan gyda nodiadau'r cyfarfod

ch) Cefnogi Clerc y Dref gyda pharatoi cynnwys a dyluniad ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Drafft i'r Cyngor ar 9/6.

d) Gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu - Cytuno ar yr amserlen ymgysylltu 'wyneb yn wyneb' leol (cyflwynwyd)

dd) Paratoi cynllun marchnata - wedi'i ddrafftio, ond yn aros am ganlyniad cais Asiantaeth Greadigol TAPE, gan y byddai angen eu cynnwys.

e) Cefnogi’r nifer o brosiectau allweddol a gyflawnwyd yn 2025, gan gynnwys (yn amodol ar gyllid a chyda chymeradwyaeth y Pwyllgor):

(i) Digwyddiad/lansiad fforwm hinsawdd a natur Traeth y Breuddwydion Mai 2025. Lansio sgwrs ynghylch camau gweithredu lleol ar hinsawdd a natur. Mynychwyd digwyddiad adborth i bartneriaid rhanbarthol ddoe - yn hapus i ni barhau â gweithgaredd yn lleol, os ydym am wneud hynny. Gellir defnyddio'r baneri eto unwaith y derbynnir hwy yn ôl ym mis Medi.

(ii) Cyfarfod Tîm y Dref yr wythnos diwethaf - awgrymwyd y gallai £8k fod ar gael i Fae Colwyn ar gyfer Digwyddiadau'r Nadolig 2025-26. Trafododd y grŵp ddefnyddio hwn tuag at y gweithgareddau/digwyddiadau Nadolig ar y cyd, gan nodi y gallai fod yn bosibl cryfhau'r cynnig lumiere.
***RG i geisio dyfynbrisiau i weld a allwn ymgorffori straeon/delweddau'r Traeth Breuddwydion yn yr orymdaith Nadolig neu weithgaredd lumiere ar gyfer 2025.***

(iii) Digwyddiad Ymgysylltu Canol y Dref (1/5) - Gwanwyn 2025
Anfonwyd adborth bellach at bawb oedd wedi mynychu. Aeth y digwyddiad yn dda. Agenda lawn iawn, yn enwedig gydag ychwanegu'r eitem ailddatblygu Bay View. Awgrymodd RG y gallai fod yn bosibl dod â David yn ôl i wneud sesiwn ddilynol ar gyfer busnesau lleol. Digwyddiad cadarnhaol iawn, gydag adborth adeiladol. Taenlen o gryfderau a chyfleoedd yn cael eu datblygu.

(iv) Prosiect Peilot Academi Sgiliau (a elwir bellach yn Brosiect Asiantaeth Greadigol): Roedd TAPE wedi cyflwyno cais am £147k dros gyfnod o 2 flynedd, gan gynnwys cronfa gyfatebol o £20k gan Gyngor Tref Bae Colwyn. Fodd bynnag, os yn lwcus, y mwyafswm o Gwynt y Môr/Gwastadeddau’r Rhyl fydd £85k. Efallai y bydd Trafnidiaeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth yn gallu ychwanegu cyllid ac mae cais SPF hefyd yn cael ei gyflwyno i helpu gyda'r diffyg.

**31/25 <u>Swyddog Ymgysylltu Strategol a Chynllun Lle CBSC:</u>**

a) Derbyniwyd adroddiad diweddariad llafar gan Swyddog Ymgysylltu Strategol a Chynllun Lle Conwy ar y broses o Gydymffurfiaeth a Chanllawiau Cynllunio Atodol (CCA), diweddariad y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLlD) a derbyniwyd copi o lythyr a gyflwynwyd i James Harland.
Diolchodd SW i David, y cyn Cadeirydd, am waith gwych a wnaed i'n cael ni i'r pwynt hwn ac mae'n edrych ymlaen at weithio'n agos gyda BC a'r Pwyllgor Llywio. Heddiw yw'r dyddiad cau ar gyfer cam adneuo'r CDLlD!!! - diwrnod prysur. Mae'n rhaid i'r CDLlD fynd trwy broses wleidyddol nesaf ac yna i ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn yr haf. Mae dogfen Cydymffurfiaeth a CCA wedi'i drafftio ac mae angen rhai mân newidiadau cyn ei lansio'n dawel yng nghyfarfod rhwydwaith Cynllun Lle nesaf Conwy (24/6). Mae SW yn gobeithio gallu adrodd yn ôl ar gyfarfod panel y Gwynt y Môr ar 24/6.

Cynigiodd y Cynghorwyr Sir ddiweddariad byr hefyd:
CC - cyfarfod diweddariad/gwybodaeth aelodau fore Mercher nesaf.
CH - mae'n dal i fod yn broses eithaf hir cyn iddi gael ei rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Cwpl o faterion allweddol ar gyfer ein hardal ni - gan gynnwys disodli'r parth siopa cynradd dynodedig gyda dynodiad parth siopa cyffredinol ar gyfer ardal ehangach, gan ei gwneud yn haws newid defnydd o fanwerthu.
Gadawodd SW o'r cyfarfod ar yr adeg hon.

**32/25** **<u>Cyfleoedd am Grantiau ar gyfer Prosiectau yn y Dyfodol:</u>** Rhoddodd Rheolwr y Cynllun Lle ddiweddariad ynghylch cyfleoedd ariannu trwy grant a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys:

a) Trawsnewid Canol Trefi (£15k) - rhannwyd neges e-bost a dderbyniwyd yr wythnos diwethaf, am gyfle i gynnig am hyd at £15k ar gyfer Bae Colwyn (anfonwyd hefyd at gwpl o drefi eraill yng Nghonwy).
Roedd RG a TE wedi trafod y meini prawf ariannu (cyfalaf yn unig) ac yn argymell bod y Pwyllgor yn ystyried cynnig i hyn ar gyfer prosiect mapio canol trefi. Nodwyd, os byddai'n cael ei gefnogi, y byddai hyn yn cael ei gyflwyno fel cynnig i GTBC ar 9/6. Cadarnhaodd TT bod hwn yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Busnes a Thwristiaeth.
Arferai busnesau gael llyfryn copi caled, ond nid yw hwn ar gael mwyach. Gellid cynhyrchu gwahanol fformatau o'r map - mapiau ffisegol yn y dref ac o bosibl fersiwn brintiedig noddedig i hysbysebu busnesau ar y cefn (i'w dalu amdano gan y busnesau). Fe nodwyd y byddai'r cynnig arfaethedig ar gyfer dylunio/cynhyrchu'r map ac i ddarparu map ffisegol 3/4 ar draws y dref.
***Cytunwyd i gefnogi'r prosiect a cheisio cymeradwyaeth gan y Cyngor Tref i fwrw ymlaen â'r cais.***

b) SPF (£10k) - wedi'i glustnodi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned (yn amodol ar gymeradwyaeth cais mwy gan CBSC).
Cyflwynwyd un cynnig ar gyfer uwchraddio goleuadau ar gyfer MUGA Rhos - byddai hyn yn arwain at ddefnydd ynni is i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. Nodwyd bod hyn wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Tref i'w ystyried ar 9/6.
***Cefnogwyd y cynnig hwn gan y Pwyllgor, gan nodi ei fod yn ymwneud â chamau gweithredu'r Cynllun Lle ynghylch darparu chwarae ieuenctid/cymunedol.***

c) Cronfa UKSPF fwy £10k i £75k - fe nodwyd mai ddoe oedd y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb a dim ond wythnos o rybudd a roddwyd. Mae TAPE wedi cyflwyno cais (tua £41k) ar gyfer creu canolfan brentisiaeth gydag achrediadau - a allai gefnogi prosiect yr Asiantaeth Greadigol, gan ddefnyddio'r £10k cyfatebol (ar gyfer 25/26) a gymeradwywyd eisoes gan CTBC. Ni ellid bod wedi paratoi dim byd arall i'w gyflwyno o ystyried y dyddiad cau o un wythnos.

Cyfeiriodd BC at yr amserlenni tyn iawn - mae angen i brosiectau/cynlluniau sy'n barod i yn fod ar gael ac yn gallu cael eu cyflawni mewn amserlen fer iawn.

Gobeithio y bydd SPF yn symud ymlaen i ffrwd ariannu tymor hwy, fel y gwnaethpwyd â'r cyllid Ewropeaidd blaenorol.
CH - yn cytuno - cyflawnwyd llawer o brosiectau Byw yn y Bae oherwydd llithriad ac arian yn weddill yn ddiweddarach yn y flwyddyn, felly mae angen i ni fod yn barod gyda phrosiectau i fanteisio ar hyn.
RG - Mae’r Cynllun Lle yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom ar gyfer unrhyw geisiadau

**33/25** **Cronfeydd Adran 106 (Rhwymedigaeth Gynllunio):**

**a)** Rhannwyd y rhestr gyfredol o gyllid Adran 106 a nododd yr aelodau unrhyw gyllid oedd i ddod i ben o fewn y 12 mis nesaf.

**b)** Fe nodwyd bod £14,500 wedi'i glustnodi o gronfeydd Mannau Agored Adran 106, fel cyllid cyfatebol tuag at gais cyllido Gwynt y Môr am £58,250 ar gyfer costau blynyddoedd 2 a 3 o rôl Rheolwr Prosiect y Cynllun Lle (wedi'i ostwng o £25,732 ar gyfer y cais tair blynedd).

**34/25** **Gohebiaeth Arall:** Rhannodd Rheolwraig y Cynllun Lle'r ohebiaeth ychwanegol ganlynol, er gwybodaeth yn unig:

a) Adborth gan RD - mae angen i ni ystyried beth mae'r Dref yn ei wneud ynglŷn â cholli Santander ym mis Gorffennaf - a allwn ni lobïo am Hwb Bancio i'r dref? Cadarnhaodd TE fod hyn wedi bod ar agenda’r Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio Cyhoeddus i’w ystyried.

***TE i ddilyn cynnydd ac adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.***

Dywedodd CC fod y meini prawf yn llym iawn - ond byddai'n cefnogi hyn yn gryf.

Daeth y Cyfarfod i ben oddeutu 12.25pm …………………………………… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE PLACE PLAN STEERING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT THE TOWN HALL AND REMOTELY (VIA ZOOM) AT 11AM ON FRIDAY 6TH JUNE 2025**

**PRESENT**: Cllrs: Hannah Fleet, Jason Higgins, Chris Hughes
Cty Cllr Cheryl Carlisle,
Co-opted Community/Business Representatives: Brian Cossey (Chair), David Masding, David Sewell, Tracey Toulmin

**OFFICERS:** Tina Earley, Town Clerk
Rachael Gill, Place Plan Manager
Pam Everley, Assistant Clerk
Shane Wetton, Place Plan Officer, Conwy CBC
Natalie Hughes, Creu Conwy (CCBC) and Colwyn Bay Town Team

**ABSENT:** Cllrs: P Ashe, C Bell, J Pearson

**24/25 Welcome and Apologies for Absence:**
Members were welcomed to the meeting and apologies for absence was received from Rob Dix and Cllr Ricki Owen.

**25/25 Election of Chair and Vice Chair:**
The current Chair, David Masding, advised Members that he wished to stand down, after serving the Steering Group/Committee since its inception in 2019. Nominations were sought for the role of Chair for 2025/26.
Brian Cossey, current Vice-Chair, was nominated and unanimously elected as Chair.
Brian took the Chair and asked for nominations for Vice-Chair.
Cllr Hannah Fleet was nominated and unanimously elected as Vice Chair.
Members expressed their gratitude to David Masding for his service as Chair and for leading the group through the initial development of the Place Plan.

**26/25 Declarations of Interest:**
No declarations were made.

**27/25 Minutes of the last meeting:**

a) ***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 7th February 2025.***
b) ***Resolved to receive the meeting notes from all of the six working groups.***

**28/25 Matters Arising from previous meeting:**

a) Min. 393/24 (a) – Gwynt y Mor and Rhyl Flats funding bid.
Members noted that the funding bid had been revised from a three-year to a two-year proposal, following a change in the funding criteria, on advice from the fund administrator.
b) Min. 393/24 (g) – Interpretation Panels Project

Members agreed that a project to refurbish/renew interpretation panels across the Bay of Colwyn area is a priority project and should be prepared sufficiently to apply for any applicable grant funding that may become available in the future.
***Resolved that R. Gill and N. Hughes will review the report produced under the Imagine Project (2019) to identify key panels for urgent replacement, and identify those that may be eligible for support through the Local Places for Nature environmental funding.***

**c)** Getting Around meeting notes 8.5.25 – Bay View Centre redevelopment
It was noted that R. Gill will be meeting with Dylan Jones (CCBC), Simon England, and Paddy Brennan (Managing Director - Agency & Investment (Bayview) to discuss the redevelopment plans and address concerns raised by local businesses. While businesses recognise the importance of the redevelopment and the key role Morrisons plays in the community, there is significant concern about the potential negative impact of the Sea View Road closure during demolition.
***Resolved that R. Gill will raise Cllr C. Hughes' suggestion to offer one hour of free parking at the Ivy Street car park during this period, at the meeting on 19 June.***

**29/25 Feedback from Local Area Forum**

Members received a verbal report from the most recent Local Area Forum meeting from Cllr C Carlisle and R Gill. Key items had included:
(RG) two viaducts in Old Colwyn - significant investment needed; S106, update on RLDP; Coed Coch Road development; (CC) Forward work plan - active travel and impact - local members not seen proposals yet (Monday); RLDP - Spec meeting to be held on impact on CB area; funding for new public toilet facilities at Porth Eirias; gulleys, drainage and SUDs; impact of Brenig insolvency.

**30/25 Progress report:**

Members received a verbal update report from the Place Plan Manager regarding the first 12 months' objectives. It was noted that it had been a very busy, but positive period since last meeting. Highlights have included:

**a)** To secure funding for the post to continue beyond September 2025 - see earlier update.

**b)** To continue to support the six themed working groups and the Place Plan Advisory Committee
RD has given some feedback - concerned re some of the lower turnout at some of the groups, but attendance likely to fluctuate - suggest review at year-end (after Q4). Just starting Q3 meetings. Challenge to keep up with all of the actions! Newsletter updates continue and new contacts coming forward.

**c)** To implement/keep updated the Place Plan's themed action plans (to follow) - to be sent out with meeting notes

**d)** To support the Town Clerk with the preparation of content and design for the Annual Report. Draft to Council on 9/6.

**e)** To implement the Communication and Engagement Strategy - To agree the local 'in person' engagement schedule (tabled)

**f)** To prepare a marketing plan – drafted, but awaiting outcome of TAPE' Creative Agency bid, as it would need to involve them.

**g)** To support the delivery of a number of key projects in 2025, to include (subject to funding and with the approval of the Committee):

**(i)** Beach of Dreams May 2025 event/launch of climate and nature forum. Launch of a conversation around local climate and nature actions. Feedback event for regional partners was attended yesterday - happy for us to continue activity locally, if we want to. Pennants can be used again once we receive back in Sept.

**(ii)** Town Team meeting last week– suggested that £8k may be available for Colwyn Bay for Christmas Events 2025'26. Group discussed using this towards the combined Christmas activities/events, noting it may be possible to strengthen the lumiere offering.

***RG to seek quotes to see if we can incorporate BoD stories/images into the Christmas parade or lumiere activity for 2025.***

**(iii)** Town Centre Engagement Event (1/5) – Spring 2025

Feedback has now been sent out to all attendees. Event went well. Very full agenda, especially with adding the BayView redevelopment item. RG suggested it may be possible to bring David back to do a follow-up session for local businesses. Very positive event, with constructive feedback. Spreadsheet of strengths and opportunities being developed.

**(iv)** Skills Academy Pilot Project (now called Creative Agency Project): TAPE had put in bid for £147k over a 2 year period, including £20k match fund from BCTC. However, if lucky the maximum from Gym/Rhyl Flats will be £85k. TfW and Dept of Transport may be able to add funding and an SPF bid is also being submitted to help with the deficit.

**31/25** **<u>CCBC Strategic Engagement and Place Plan Officer:</u>**

**a)** To receive a verbal update report from the Conwy Strategic Engagement Place Plan Officer on the SPG Conformity process, RLDP update and receive a copy of a letter submitted to James Harland.

SW thanked David, the outgoing Chair, for a fantastic job done to get us to this point and looks forward to working closely with BC and the Steering Committee.

Today is deadline for deposit stage of RLDP!!! - busy day. The RLDP has to go through political process next and then to public consultation later in the summer

The SPG Conformity document has been drafted and some minor amendments needed prior to soft launch at next Conwy PP network meeting (24/6). SW hopes to be able to report back on the GyM panel meeting on 24/6.

County Councillors also offered a brief update:

CC - members update/ information meeting next Weds morning

CH - still quite a long process before it is released for public consultation. Couple of key issues for our area - including designated primary shopping zone to be replaced with general shopping zone designation for a wider area, making it easier to change use from retail.

SW retired from the meeting at this juncture.

**32/25** **<u>Grant Opportunities for Future Projects:</u>** The Place Plan Manager gave an update regarding recently published grant funding opportunities, to include:

**a)** Transforming Town Centres (£15k) – an email received last week was shared, re opportunity to bid for up to £15k for Colwyn Bay (plus sent to another couple of towns in Conwy).
RG and TE had discussed the funding criteria (capital only) and recommended that the Committee consider bidding into this for a town centre mapping project. It was noted that, if supported, this would be submitted as a proposal to BCTC on 9/6. TT confirmed that it was supported by the Business and Tourism W/Grp . Businesses used to have a hard copy booklet, but this no longer available. Different formats of the map could be produced - physical maps in the town and possibly a sponsored print version to advertise businesses on the reverse (paid for by the businesses). It was noted that the proposed bid would be for the design/production of the map and to provide 3/4 physical maps across the town.
***Agreed to support the project and seek approval from the Town Council to progress the bid.***

**b)** SPF (£10k) - ringfenced for Town and Community Councils (subject to approval of larger bid by CCBC).
One proposal had been submitted for upgrade to lighting for Rhos MUGA – this would result in lower energy use to make them more sustainable. It was noted that this had been submitted to the Town Council for consideration on 9/6.
***The Committee supported the proposal, noting that it related to actions in the PP around youth/community play provision.***

**c)** Larger UKSPF fund £10k to £75k – it was noted that the deadline for expressions of interest was yesterday and just a week's notice had been given. TAPE has submitted an application (approx £41k) for creating an apprenticeship centre with accreditations – which could support the Creative Agency project, using the match of £10k (for 25'26) already approved from BCTC. Nothing else could have been prepared for submission given the one week deadline.

BC commented that the timescales are very short - oven ready projects/schemes need to be ready and be capable of being delivered in a very short timescale. Hoping SPF will progress into a longer term funding stream, as per the previous European funding.
CH - agrees - many Bay Life projects were delivered due to slippage and funds remaining later in the year, so we need to be prepared with projects to take advantage of this.
RG - Place Plan gives us the evidence we need for any bids

**33/25** **<u>Section 106 (Planning Obligation) funds:</u>**

**a)** The current list of S.106 funding was shared and members noted any due to expire within the next 12 months.

**b)** It was noted that £14,500 is earmarked from the S.106 Open Spaces funds, as match-funding towards the GyM funding application for £58,250 for the costs of years 2 and 3 of the Place Plan Project Manager role (reduced from £25,732 for the three-year bid).

**34/25** <u>**Other Correspondence:**</u> The Place Plan Manager shared the following additional correspondence, for information only:

**a)** Feedback from RD – we need to consider what the Town is doing about losing Santander in July – can we lobby for a Banking Hub for the town?
TE confirmed that this has been on the agenda for the GPP committee to consider
***TE to chase progress and feed back to a future meeting.***
CC reported that the criteria is very strict – but would strongly support this.

The Meeting closed at approximately 12.25pm ………………………………………. Chairman